



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

ADRODDIAD ar y GOBLYGIADAU i SAFLEOEDD EWROPEAIDD

Fferm Wynt Alltraeth Arfaethedig Awel y Môr

Adroddiad gan yr Awdurdod Archwilio a baratowyd gyda
chymorth y Tîm Gwasanaethau Amgylcheddol

Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN0101112

22 Chwefror 2023

[Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol]

TABL CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD	2
1.1	CEFNDIR	2
1.2	DOGFENNAU A DDEFNYDDIWDYD I LYWIO'R RIES HWN	4
1.3	STRWYTHUR Y RIES HWN.....	5
1.4	MATERION HRA A YSTYRIWYD YN YSTOD YR ARCHWILIAD	6
2	EFFEITHIAU ARWYDDOCOL TEBYGOL	7
2.1	DULL YR YMGEISYDD O AMLYGU SAFLEOEDD EWROPEAIDD	7
2.2	LLWYBRAU EFFEITHIAU POSIBL AR SAFLEOEDD EWROPEAIDD.....	8
2.3	TRAFODAETHAU YNGLŶN Â CHASGLIADAU'R YMGEISYDD AR LSE YN YSTOD YR ARCHWILIAD	9
3	EFFEITHIAU NIWEIDIOL AR GYFANRWYDD	15
3.1	AMCANION CADWRAETH	15
3.2	Y PRAWF CYFANRWYDD	15
4	CRYNODEB	32
4.1	CANLYNIADAU LSE HYD AT DERFYN AMSER 5.....	32
4.2	CANLYNIADAU AEOI HYD AT DERFYN AMSER 5	32

**ATODIAD 1 CRYNODEB YR YMGEISYDD O SAFLEOEDD EWROPEAIDD A
NODWEDDION NA ELLIR EITHRIO EFFEITHIAU
ARWYDDOCAOL TEBYGOL ARNYNT.**

[Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol]

1 CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir

1.1.1 Mae Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited (yr Ymgeisydd) wedi gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) o dan adran 37 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth arfaethedig Awel y Môr (y cais). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penodi Awdurdod Archwilio (ExA) i gynnal archwiliad o'r cais, adrodd ar ei ganfyddiadau a'i gasgliadau, a gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r penderfyniad sydd i'w wneud ar y cais.

1.1.2 Yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yw'r awdurdod cymwys at ddibenion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd¹ a'r Rheoliadau Cynefinoedd² a'r Rheoliadau Morol Alltraeth³ ar gyfer ceisiadau a gyflwynir o dan gyfundrefn PA2008. Bydd y canfyddiadau a'r casgliadau ynglŷn â materion cadwraeth natur a adroddir gan yr ExA yn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a'r Rheoliadau Morol Alltraeth.

1.1.3 Mae'r adroddiad hwn yn casglu, dogfennu a chyfeirio at wybodaeth a ddarparwyd yn y cais DCO, a'r wybodaeth a gyflwynwyd drwy gydol yr archwiliad gan yr Ymgeisydd a phartïon â buddiant (IPs), hyd at Derfyn Amser 6 yr archwiliad (20 Chwefror 2023) mewn perthynas ag effeithiau posibl ar Safleoedd Ewropeaidd⁴. Nid yw'n ddogfen annibynnol a dylid ei darllen ar y cyd â'r dogfennau archwiliad y cyfeirir atynt. Pan gyflwynir cyfeiriadau at ddogfennau mewn cromfachau sgwâr [] yn nhestun yr adroddiad hwn, gellir dod o hyd i'r cyfeiriad hwnnw yn llyfrgell yr Archwiliad a gyhoeddwyd ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol trwy'r ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010112-000504>

1.1.4 Fe'i cyhoeddir er mwyn sicrhau yr ymgynghorir yn ffurfiol â phartïon â buddiant, gan gynnwys y Cyrff Cadwraeth Natur Priodol (ANCB), Natural England (NE), y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), NatureScot (NS), yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA NI) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ynglŷn â

¹ Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor dyddiedig 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt (fel y'i codeiddiwyd) (y 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd').

² Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y Rheoliadau Cynefinoedd).

³ Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (y Rheoliadau Morol Alltraeth) yn berthnasol y tu hwnt i ddyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig (12 môr-filltir). Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol pan gyflwynir cais am brosiect ynni mewn parth ynni adnewyddadwy (heblaw am unrhyw ran y mae gan Weinidogion yr Alban swyddogaethau mewn perthynas â hi).

⁴ Mae'r term Safleoedd Ewropeaidd yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol (SBCau), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac ACAau ymgeisiol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), ACAau posibl, darpar AGAau, safleoedd Ramsar, safleoedd Ramsar arfaethedig, ac unrhyw safleoedd a amlygwyd fel mesurau digolledu ar gyfer effeithiau niweidiol ar unrhyw un o'r uchod. I gael disgrifiad llawn o'r dynodiadau y mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol iddynt, a/neu sy'n cael eu cymhwyso fel mater o bolisi'r Llywodraeth, gweler Nodyn Cyngor 10 yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS).

materion y Rheoliadau Cynefinoedd. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar y broses hon at ddibenion Rheoliad 63(3) y Rheoliadau Cynefinoedd a Rheoliad 28(4) y Rheoliadau Morol Alltraeth. Yn dilyn ymgynghoriad, bydd yr ExA yn ystyried yr ymatebion wrth wneud ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol a byddant ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghyd â'r adroddiad hwn. Ni fydd yr Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES) yn cael ei ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad.

- 1.1.5 Dewisodd yr ExA roi gwybod i NE, NS a DAERA NI fel unigolion eraill gan na chofrestrodd yr ANCBs hyn fel Partïon â Buddiant yn ystod y cyfnod cyn-archwilio, a chynnig cyfle iddynt gymryd rhan yn y Cyfarfod Rhagarweiniol. Cynghorodd NE nad oedd yn dymuno gwneud hynny [AS-037].
- 1.1.6 Roedd dogfennau cais DCO yr Ymgeisydd yn cynnwys Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol [APP-027] ('y RIAA'). Daeth i'r casgliad fod potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol tebygol (LSE) ar 32 o safleoedd Ewropeaidd yn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig a 23 safleoedd Natura 2000 yn aelod-wladwriaethau'r UE.

Safleoedd y tu allan i Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

- 1.1.7 Roedd y RIAA (Pennod 12, [APP-027]) hefyd wedi ystyried safleoedd Ewropeaidd yng Ngwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd⁵, ac amlygodd y gallai effeithiau posibl o'r Datblygiad Arfaethedig arwain at LSE ar safleoedd yng Ngweriniaeth Iwerddon a Ffrainc a ddynodwyd ar gyfer nodweddion adaregol neu famaliaid môr. Mae'r Ymgeisydd wedi dod i'r casgliad (Adrannau 10.2 a 10.3, [APP-027]) na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd (AEoI) y safleoedd hyn yn codi o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig, naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill.
- 1.1.8 Mynegodd Llywodraeth Ynys Manaw bryderon ynglŷn â digonolrwydd yr asesiad adaregol, yn enwedig o ran effeithiau ar adar drycin Manaw [RR-027]. Cadarnhaodd nad yw Ynys Manaw yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Cynefinoedd ond ei bod yn rhan o gonfensiwn Ramsar. Mae un safle Ramsar wedi cael ei restru, sef Ballaugh Currags, ar gyfer bodaod tinwen [REP2-052].
- 1.1.9 Darparodd yr Ymgeisydd wybodaeth ychwanegol am y dull a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau ar fodaod tinwen sy'n gysylltiedig â safle Ramsar Ballaugh Currags [REP3-009] erbyn Terfyn Amser 5 a nododd fod y Cytundeb Tir Cyffredin (SoCG) gydag Ynys Manaw [REP4-014] yn dangos nad oes unrhyw anghytundebau'n weddill yn ymwneud â materion mamaliaid môr neu adareg [REP5-004]. Dywedodd wedi hynny hefyd [REP5-004] gan nad yw Ynys Manaw wedi llofnodi'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, nid yw'r RIAA yn ystyried effeithiau ar safleoedd dynodedig Ynys Manaw.

⁵ Gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

- 1.1.10 Dim ond safleoedd Ewropeaidd sy'n rhan o Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig yr ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad hwn.

1.2 Dogfennau a ddefnyddiwyd i lywio'r RIES hwn

- 1.2.1 Roedd Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yr Ymgeisydd yn cynnwys y dogfennau canlynol:

- 5.2 Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol (RIAA) [APP-027];
- 5.2.1 RIAA – Atodiad 1 – Diweddariad Sgrinio (Heb fod yn ymwneud ag Adareg) yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) [APP-028];
- 5.2.2 RIAA – Atodiad 2 – Diweddariad Sgrinio (Adareg) yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) [APP-029];
- 5.2.3 RIAA – Atodiad 3 – Gwybodaeth am Safleoedd Ewropeaidd [APP-030], a ddisodlwyd gan ddogfen [AS-022]⁶;
- 5.2.4 RIAA – Atodiad 4 – Gwybodaeth Ychwanegol am Ddolffiniaid Trwyn Potel a Morloi Llwyd [APP-031];
- 5.2.5 RIAA – Atodiad 5 – Nodyn Dosrannu Adareg [APP-032];
- 5.2.6 RIAA – Atodiad 6 – Matricsau Sgrinio [APP-033];
- 5.2.7 RIAA – Atodiad 7 – Matricsau Cyfanrwydd [APP-034];
- 5.2.8 RIAA – Atodiad 8 – Digonedd a Dosbarthiad Trochyddion Gyddfgoch yn Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr a'r Ardal Ehangach [APP-035];
- 6.4.4.1 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 4.1 Adroddiad Nodweddu Sylfaenol Adareg Alltraeth [APP-095];
- 6.4.4.2 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 4.2 Dadleoli Adareg Alltraeth [APP-096];
- 6.4.4.3 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 4.3 Modelu Risg Gwrthdrawiad Adareg Alltraeth [APP-097];
- 6.4.4.4 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 4.4 Modelu Risg Gwrthdrawiad Mudol [APP-098];
- 6.4.4.6 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 4.6 Dadansoddiad Hyfywedd Poblogaeth Adareg Alltraeth [APP-100];
- 6.4.5.1 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 5.1 Nodweddu Islanw Ecoleg Fenthig (Aráe) [APP-101];

⁶ Diwygiwyd fersiwn y cais [APP-030] er mwyn ymateb i gyngor a51 ôl-dderbyn o dan PA2008, a ofynnodd i'r Ymgeisydd adolygu 5.2.3 RIAA Atodiad 3 Gwybodaeth am Safleoedd Ewropeaidd HRA [APP-030] a sicrhau bod yr holl ffigurau'n bresennol. Darparodd yr Ymgeisydd fersiwn ddiwygiedig [AS-022] a ddisodlodd [APP-030] i gynnwys Ffigur 40 a hepgorwyd trwy amryfusedd.

- 6.4.5.2 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 5.2 Nodweddu Islanw Ecoleg Fenthig (Cebl Allforio Alltraeth) [APP-102];
- 6.4.5.3 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 5.3 Nodweddu Islanw Ecoleg Fenthig (Aráe) [APP-103];
- 6.4.6.1 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 6.1 Sylfaen Dechnegol Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn [APP-104];
- 6.4.6.2 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 6.2 Adroddiad Technegol Sŵn Tanddwr [APP-105];
- 6.4.7.1 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 7.1 Nodweddu Sylfaenol Mamaliaid Môr [APP-106];
- 6.4.7.2 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 7.2 Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr Drafft [APP-107];
- 6.4.7.3 Datganiad Amgylcheddol (ES) Cyfrol 4 – Atodiad 7.1 Tybiaethau Asesu Meintiol Mamaliaid Môr [APP-108];
- 8.2 Adroddiad Cynllun Tystiolaeth [APP-301];
- 8.2.1 Adroddiad Cynllun Tystiolaeth – Atodiadau Rhan 1 (A i C) [APP-302];
- 8.2.2 Adroddiad Cynllun Tystiolaeth – Atodiadau Rhan 2 (D i F) [APP-303];
- Rhestr Cais Errata Terfyn Amser 1 [REP1-004]; a
- 6.22 D6 Cynllun Safleoedd Cadwraeth Natur Statudol/Anstatudol Diwygiad D Terfyn Amser 6.

1.2.2 Yn ogystal â'r dogfennau hyn, mae'r ExA wedi defnyddio sylwadau a gyflwynwyd i'r Archwiliad gan Bartion â Buddiant, dogfennau Gwrandawriad Mater Penodol (ISH), Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) a dogfennau eraill yr Archwiliad fel y bo'n berthnasol. Mae'r holl ddogfennau ar gael yn Llyfrgell yr Archwiliad⁷.

1.3 Strwythur y RIES hwn

1.3.1 Mae gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn amlygu'r safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys a sgriniwyd gan yr Ymgeisydd ar gyfer LSE posibl, naill ai'n unigol neu ar y cyd â phrosiectau a chynlluniau eraill. Mae'r adran hefyd yn amlygu'r materion sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr

⁷ Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael yn: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010112/EN010112-000504-Awel%20y%20Mor%20Offshore%20Wind%20Farm%20-%20Bilingual%20Examination%20Library.pdf>

Archwiliad, gan gynnwys lle mae Partion â Buddiant wedi herio casgliadau'r Ymgeisydd, hyd at Derfyn Amser 5 (6 Chwefror 2023).

- Mae **Adran 3** yn amlygu'r safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys a ystyriwyd o ran effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safle, naill ai'n unigol neu ar y cyd â phrosiectau a chynlluniau eraill. Mae'r adran yn amlygu'r materion sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys lle mae Partion â Buddiant wedi herio casgliadau'r Ymgeisydd, hyd at Derfyn Amser 5 (6 Chwefror 2023).
- **Atodiad 1** Crynodeb yr Ymgeisydd o safleoedd Ewropeaidd a nodweddion na ellir eithrio Effeithiau Arwyddocaol Tebygol arnynt.

Cwestiynau'r RIES

- 1.3.2 Mae'r RIES hwn yn cynnwys cwestiynau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer yr ANCBs yn bennaf, a ddangosir mewn [testun glas italiq wedi'i danlinellu](#). Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe byddai partion yn ymateb i'r cwestiynau hyn. Fodd bynnag, pwysleisir bod croeso i ymateb i faterion eraill a drafodir yn y RIES hefyd.
- 1.3.3 Mae sylwadau ar y RIES wedi'u hamserlennu ar gyfer Terfyn Amser 8 (15 Mawrth 2023 am 23.59).

1.4 Materion HRA a Ystyriwyd yn Ystod yr Archwiliad

- 1.4.1 Mae'r Archwiliad hyd yma wedi canolbwyntio ar y materion canlynol:
 - Effeithiau risg gwrthdrawiad ar gyfer adar drycin Manaw
 - Effeithiau gwrthdrawiad â llongau ar gyfer mamaliaid môr
 - Sicrhau mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd
 - Effaith sŵn tanddwr ar famaliaid môr
 - Dadleoli trochyddion gyddfgoch
 - Risg gwrthdrawiad ar gyfer huganod
 - Effeithiau ar ansawdd dŵr morol

2 EFFEITHIAU ARWYDDOCOL TEBYGOL

2.1 Dull yr Ymgeisydd o amlygu Safleoedd Ewropeaidd

- 2.1.1 Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig yn gysylltiedig â rheoli unrhyw safleoedd Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth natur, nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny. Felly, mae angen ystyried a fyddai unrhyw safleoedd Ewropeaidd yn destun Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig.
- 2.1.2 Mae Adran 6 y RIAA [APP-027] yn disgrifio sut oedd dull yr Ymgeisydd o ddethol safleoedd a nodweddion i'w hystyried wrth sgrinio wedi esblygu trwy ymgynghori. Defnyddiodd yr Ymgeisydd broses cynllun tystiolaeth ar gyfer pob un o'r penodau agwedd yn y Datganiad Amgylcheddol a oedd yn cynnwys CNC, y JNCC a chyrff eraill fel y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) a'r Ymddiriedolaethau Natur (TWT). Roedd y rhain yn cynnwys nifer o agweddau sy'n berthnasol i'r HRA; Morgludiant a Mordwyo, Adareg Alltraeth, Mamaliaid Môr ac Ecoleg Forol. Rhoddir manylion y pynciau agwedd, y trafodaethau a gynhaliwyd a'r dogfennau cysylltiedig yn y Cynllun Tystiolaeth [APP-301 i APP-303].
- 2.1.3 Mewn ymateb i gwestiwn gan yr ExA, nododd yr Ymgeisydd ei fod wedi darparu tystiolaeth o'i gydymffurfiaeth â gofynion Protocol Llwybr Cefn 2017 Estyniadau Gwynt Alltraeth (Ystâd y Goron) fel rhan o'i gais am asedau trosglwyddo [REP5-004].
- 2.1.4 Mae Tabl 6 Atodiad 1 [APP-028] yn rhestru effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar bob nodwedd, yr ardal chwilio y gallai'r effeithiau hynny ddigwydd ynddi a lle y gwnaed unrhyw newidiadau i'r sgrinio cychwynnol ar ôl ymgynghori. Mae'r RIAA [APP-027] yn datgan bod yr ymarfer sgrinio a gyflwynwyd yn Atodiad 1 wedi cael ei ddiweddarau i:
- Eithrio sawl ACA â nodweddion ar y tir lle'r oedd diwygiadau i ffin y DCO yn golygu bod yr ACAau bellach y tu hwnt i'r pellter sgrinio a nodwyd ym mhennod berthnasol yr ES (paragraff 57).
 - Cynnwys dwy ACA ychwanegol y mae morloi llwyd yn nodweddion cymwys ar eu cyfer (paragraff 60).
- 2.1.5 Mae Adran 2.1 Atodiad 2 [APP-029] yn rhestru'r meini prawf a ddefnyddiwyd i amlygu AGAau a safleoedd Ramsar â nodweddion adaregol. Mae Adran 3 Atodiad 2 yn datgan bod chwe AGA ychwanegol wedi cael eu sgrinio ar gyfer LSE ar sail cyngor CNC.
- 2.1.6 Holodd yr ExA (Q.2.102 [PD-009]) b'un a oedd unrhyw safleoedd Ewropeaidd/Ramsar neu nodweddion ychwanegol nad oeddent wedi'u cynnwys yn y RIAA. Cadarnhaodd CNC [REP1-080] a'r JNCC [REP1-069] eu bod yn fodlon â'r safleoedd a ddewiswyd. Cadarnhaodd DAERA NI [REP1-057] ei bod yn fodlon â'r ACAau a ystyriwyd ar gyfer mamaliaid môr. Ni ymatebodd NS.

- 2.1.7 Mewn ymateb i gais gan yr ExA [PD-015], gofynnodd yr Ymgeisydd i DAERA NI os oedd yn fodlon gyda'r asesiad a wnaed neu i gynghori os oedd yn ymwybodol o unrhyw safleoedd neu nodweddion cymwys sydd ar goll o'r RIAA. Dywedodd yr Ymgeisydd fod DAERA NI wedi ymateb i gadarnhau ei fod yn fodlon gyda'r asesiad ac nad oedd ganddo sylwadau pellach (6.1 Canllaw i Gyflwyniad Terfyn Amser 6 yr Ymgeisydd).

1. [Gofynnir i Natural England a NatureScot gadarnhau nad oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn ag effeithiau o'r Datblygiad Arfaethedig ar safleoedd Ewropeaidd.](#)

2.2 Llwybrau Effeithiau Posibl ar Safleoedd Ewropeaidd

Effeithiau o'r Datblygiad Arfaethedig yn unigol

- 2.2.1 Amlygodd yr Ymgeisydd effeithiau posibl yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig a allai arwain at LSE, a grynhoir yn Nhabl 4 (nodweddion nad ydynt yn ymwneud ag adareg) a Thabl 5 (nodweddion adareg) y RIAA [APP-027].
- 2.2.2 O ran y camau adeiladu a datgomisiynu, daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad y gallai'r llwybrau effeithiau canlynol arwain at LSE: colli/aflonyddu ar gynefin ffisegol; gwaddodion crog a gwaddodi; llygredd; rhywogaethau estron goresgynnol; newidiadau i brosesau ffisegol; sŵn tanddwr; aflonyddu'n uniongyrchol ar rywogaethau a'u dadleoli; ac aflonyddu ar rywogaethau'n weledol a/neu o ganlyniad i sŵn. O ran y cam gweithredu a chynnal a chadw, daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad y byddai'r un llwybrau effeithiau arwyddocaol â'r cam adeiladu a datgomisiynu, yn ogystal ag amledd electromagnetig (EMF); effaith rwystr; a risg gwrthdrawiad, gan gynnwys ar fudo. Nid oedd yr Ymgeisydd wedi ystyried yr holl effeithiau posibl ar gyfer pob nodwedd gymwys, a rhoddwyd rhesymeg yn y RIAA.

Effeithiau o'r Datblygiad Arfaethedig ar y cyd

- 2.2.3 Dull yr Ymgeisydd o ystyried effeithiau ar y cyd, fel y disgrifir yn adran 7 y RIAA [APP-027], oedd tybio lle yr amlygwyd y potensial ar gyfer LSE ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn unigol, gallai effeithiau ar y cyd godi hefyd. Mae'r RIAA yn datgan y rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r potensial y gallai effeithiau a oedd yn rhy ddibwys i arwain at LSE yn unigol arwain at effeithiau ar y cyd. Fodd bynnag, gan fod yr ymagwedd at ddelio ag amlygu LSA wedi bod yn dra rhagofalus, ni amlygwyd unrhyw enghreifftiau o hyn gan yr Ymgeisydd na thrwy ymgynghori.
- 2.2.4 Felly, roedd yr effeithiau ar y cyd a amlygwyd gan yr Ymgeisydd yr un fath â'r effeithiau o'r Datblygiad Arfaethedig yn unigol. Ni amlygwyd unrhyw effeithiau ar y cyd posibl ychwanegol gan unrhyw Barti â Buddiant hyd at Derfyn Amser 5 yr Archwiliad.
- 2.2.5 Cynhaliodd yr Ymgeisydd asesiad o effeithiau cronol yn rhan o'r ES. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd i amlygu'r parthau dylanwad posibl sy'n

gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig a'r cynlluniau neu'r prosiectau a allai ryngweithio â nhw wedi'u disgrifio yng Nghyflwr 1, Atodiad 3.1 yr ES [APP-042]. Roedd y cynlluniau a'r prosiectau a gynhwyswyd yn yr asesiad ar y cyd wedi'u seilio ar y rhai hynny a amlygwyd trwy'r asesiadau o effeithiau cronol a adroddwyd ym mhenodau perthnasol yr ES, ac yna fe'u mireiniwyd ymhellach fel y disgrifir yn adran 7 y RIAA [APP-027].

- 2.2.6 Yn yr un modd â'r asesiad o effeithiau cronol yn yr ES, dosbarthodd yr Ymgeisydd y gwahanol gynlluniau neu brosiectau'n gyfres o haenau. Diffiniwyd yr haenau gan y cam y mae'r cynllun neu'r prosiect wedi'i gyrraedd a faint o sicrwydd sy'n gysylltiedig â'r asesiad o effeithiau amgylcheddol. Diffinnir yr haenau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad ar y cyd yn Nhabl 6 (pob derbynnydd heblaw am famaliaid môr) a Thabl 7 (mamaliaid môr) y RIAA [APP-027]. Defnyddiodd yr Ymgeisydd ddiffiniadau gwahanol o haenau ar gyfer yr asesiad ar y cyd o famaliaid môr i adlewyrchu'r ffaith bod mwy o ansicrwydd ynglŷn â'r gorgyffyrddiad rhwng gweithgareddau a fyddai'n cynhyrchu sŵn tanddwr.
- 2.2.7 Cyflwynir y cynlluniau a'r prosiectau a ystyriwyd yn yr asesiad ar y cyd yn nhablau canlynol y RIAA [APP-027]:
- Tabl 8: Ecoleg Fenthig Islanw a Rhynglanw;
 - Tabl 9: Mamaliaid môr;
 - Tabl 10: Pysgod mudol; a
 - Thablau 40 a 41: Adareg alltraeth.
- 2.2.8 Mae'r Ymgeisydd wedi cynnwys yr asesiad manwl o effeithiau ar y cyd wrth asesu effeithiau ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd/Ramsar yr effeithir arnynt.

2.3 Trafodaethau ynglŷn â chasgliadau'r Ymgeisydd ar LSE yn ystod yr Archwiliad

- 2.3.1 Sgriniodd yr Ymgeisydd gyfanswm o 36 o safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig cyn yr archwiliad (Tabl 6 [APP-028] a Thabl 2 [APP-029]). Cafodd dau safle eu gwahardd yn dilyn newidiadau i ffin y Datblygiad Arfaethedig. O'r safleoedd sy'n weddill, daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai LSE ar 2 safle Ewropeaidd a'u nodweddion cymwys (ACA Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn ac ACA Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd). Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn cynnwys rhestr lawn o safleoedd, nodweddion a llwybrau effeithiau yr ystyriodd yr Ymgeisydd na ellid eithrio LSE arnynt.
- 2.3.2 Heriodd ANCBs/Partïon â Buddiant sawl mater ynglŷn â chasgliadau'r Ymgeisydd ar LSE yn ystod yr Archwiliad, yn ymwneud ag effeithiau risg gwrthdrawiad ar gyfer adar drycin Manaw ac effeithiau gwrthdrawiad â llongau ar gyfer mamaliaid môr. Crynhoir y rhain yn Nhabl 2.1 isod. Amlygodd yr RSPB LSE posibl ar ddau safle ychwanegol

na nodwyd yn ystod ymarfer sgrinio'r Ymgeisydd, sef AGA Rum ac AGA St Kilda.

- 2.3.3 Cynghorodd CNC yn ei sylwadau perthnasol [RR-015] nad oedd yn cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd mewn perthynas ag effeithiau halogyddion sy'n gaeth i waddodion ar ansawdd dŵr morol. Rhoddodd yr Ymgeisydd eglurhad ychwanegol yn Derfyn Amser 1 [REP1-007, REP1-015]. Cytunodd CNC ei fod yn fodlon i'r mater gael sylw (6.29 Datganiad o Dir Cyffredin 6 – Cyfoeth Naturiol Cymru (Alltraeth)).

Tabl 2.1 Materion a drafodwyd ynglŷn ag Effeithiau Arwyddocaol Tebygol

Safleoedd/nodweddion cymwys	Effeithiau a aseswyd	Materion yn yr Archwiliad
AGA Ynysoedd Copeland		
Adar drycin Manaw	Risg gwrthdrawiad	<p>Mynegodd yr RSPB [RR-024] a [REP1-090] bryderon ynglŷn â dwyseddau sylfaenol adar drycin Manaw a gyflwynwyd yn yr asesiad a phenderfyniad yr Ymgeisydd i hepgor y rhywogaeth fel derbynydd sydd mewn perygl o effeithiau gwrthdrawiad. Nodwyd bod tystiolaeth o adar drycin Manaw yn drysu o ganlyniad i olau, a allai achosi newid i'w hymddygiad a allai effeithio ar ganlyniadau arolwg a chynyddu risg gwrthdrawiad. Mae'n credu nad oes modd diystyru effeithiau ar y cyd ar nodwedd gymwys adar drycin Manaw. Erbyn Terfyn Amser 5, darparodd yr RSPB gopïau o bapurau ymchwil ychwanegol, gan gynnwys adolygiad o effeithiau gwrthdrawiad a dadleoli ar adar drycin Manaw gan Lywodraeth yr Alban⁸.</p> <p>Darparodd yr Ymgeisydd [REP1-001, REP2-002] dystiolaeth ychwanegol i gyfiawnhau ei ddull, a nododd fod y llwybr effeithiau wedi cael ei hepgor gyda chytundeb CNC (a dystiwyd yn yr Adroddiad Cynllun Tystiolaeth a'i atodiadau ategol ([APP-301], [APP-302] ac [APP-303], yn y drefn honno). Darparodd yr Ymgeisydd eglurhad ychwanegol erbyn Terfyn Amser 5 [REP5-004], gan gynnwys tystiolaeth ynglŷn</p>

⁸ A review to inform the assessment of the risk of collision and displacement in petrels and shearwaters from offshore wind developments in Scotland Z. Deakin *et al* Rhagfyr 2022.

Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd ar gyfer
Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

		<p>ag ymddygiad adar o gytrefi adar drycin Manaw Môr Iwerddon a'r nifer gyfyngedig o adar a gofnodwyd yn yr arolygon o'r awyr. Cyfeiriodd at adolygiad Llywodraeth yr Alban i gefnogi ei safbwynt ynglŷn â gweithgarwch yn y nos, esgyn ar oleddf ac ymateb i ffynonellau golau gan adar drycin Manaw [REP5-004]. Nododd hefyd nad oedd ffermydd gwynt alltraeth eraill ym Môr Iwerddon wedi amlygu effeithiau tebyg ar adar drycin Manaw ac nad oedd yn ofynnol iddynt gynnal rhaglenni monitro.</p> <p>Mae CNC yn cytuno bod LSE ar y rhywogaeth hon yn annhebygol oherwydd bod yr arolygon o'r awyr wedi canfod niferoedd cymharol fach o'r rhywogaeth hon a gwyddys ei bod yn hedfan o fewn ychydig fetrau o wyneb y môr [REP5-039].</p> <p>Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cyflwyno tystiolaeth i'r RSPB yn ystod cyfarfod ym mis Chwefror 2023 a chytunodd yr RSPB mewn egwyddor na fyddai adar drycin Manaw mewn perygl o'r Datblygiad Arfaethedig, o ystyried y digonedd a'r dwyseddau isel sy'n bresennol (6.3 Sylwadau Ymgeisydd ar Ymatebion i Ail Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio).</p>
AGA Glan Môr Iwerddon		
Adar drycin Manaw	Risg gwrthdrawiad	Yr un fath ag ar gyfer AGA Ynysoedd Copeland
AGA Rum*		
Adar drycin Manaw	Risg gwrthdrawiad	Yr un fath ag ar gyfer AGA Ynysoedd Copeland
AGA St Kilda*		

Adar drycin Manaw	Risg gwrthdrawiad	Yr un fath ag ar gyfer AGA Ynysoedd Copeland
AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli		
Adar drycin Manaw	Risg gwrthdrawiad	Yr un fath ag ar gyfer AGA Ynysoedd Copeland
AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro		
Adar drycin Manaw	Risg gwrthdrawiad	Yr un fath ag ar gyfer AGA Ynysoedd Copeland
ACA Gogledd Môn Forol (y Deyrnas Unedig)		
Llamhidyddion	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Datganodd CNC [RR-015, REP1-080] nad oedd digon o gyfiawnhad i gefnogi casgliad na fyddai LSE o ganlyniad i wrthdrawiad â llongau ar gyfer nodweddion dolffiniaid trwyn potel, morloi llwyd neu lamhidyddion ACAau perthnasol. Heriodd y casgliad gan ei fod yn dibynnu ar ymrwymiad yr Ymgeisydd i brotocolau arfer gorau o ran trin llongau yn ystod adeiladu. Ymatebodd yr Ymgeisydd [REP1-001] i'r pryderon hyn a datryswyd y mater erbyn Terfyn Amser 1, trwy gyflwyno Nodyn Egluro Mamaliaid Môr yr Ymgeisydd [REP1-002] sy'n dod i'r casgliad, gan ystyried y mesurau lliniaru arfaethedig, nad oes posibilrwydd o AEoI (gan felly symud y llwybr effeithiau hwn ymlaen i Gam 2).
ACA Dynesfeydd Môr Hafren (y Deyrnas Unedig)		
Llamhidyddion	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Yr un fath ag ar gyfer ACA Gogledd Môn Forol
ACA Bae Ceredigion (y Deyrnas Unedig)		
Morloi llwyd Dolffiniaid trwyn potel	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Yr un fath ag ar gyfer ACA Gogledd Môn Forol
ACA Sianel y Gogledd (y Deyrnas Unedig)		

Llamhidyddion	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Yr un fath ag ar gyfer ACA Gogledd Môn Forol
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (y Deyrnas Unedig)		
Dolffiniaid trwyn potel Morloi llwyd	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Yr un fath ag ar gyfer ACA Gogledd Môn Forol
ACA Gorllewin Cymru Forol (y Deyrnas Unedig)		
Llamhidyddion	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Yr un fath ag ar gyfer ACA Gogledd Môn Forol
ACA Sir Benfro Forol		
Morloi llwyd	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Yr un fath ag ar gyfer ACA Gogledd Môn Forol

* Safleoedd Ewropeaidd a amlygwyd gan yr RSPB ac na chynhwyswyd yn ymarfer sgrinio gwreiddiol yr Ymgeisydd

3 EFFEITHIAU NIWEIDIOL AR GYFANRWYDD

3.1 Amcanion Cadwraeth

- 3.1.1 Amlinellir yr amcanion cadwraeth ar gyfer y safleoedd a'r nodweddion a amlygir yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn Atodiad 3: Gwybodaeth am Safleoedd Ewropeaidd RIAA yr Ymgeisydd [AS-022] a chant eu crynhoi yn adran 10 y RIAA [APP-027].
- 3.1.2 Gofynnodd yr ExA gwestiynau i CNC/JNCC/DAERA NI ynglŷn â'r amcanion cadwraeth a ddefnyddiwyd yn yr Adroddiad HRA (Cwestiynau 2.103, a 2.104 [PD-009]), a chafodd y cadarnhad canlynol:
- Cadarnhaodd y JNCC [REP1-069] fod yr amcanion cadwraeth cywir wedi'u nodi ar gyfer ACA Gogledd Môn Forol.
 - Cadarnhaodd DAERA NI [REP1-057] fod yr amcanion cadwraeth yn gywir ar gyfer AGA Ynys Rathlin ac AGA Ynysoedd Copeland, ond cynghorodd y dylai gwybodaeth ychwanegol gael ei chynnwys ar gyfer amcanion cadwraeth ACA Sianel y Gogledd ynglŷn â llamhidyddion.
 - Cadarnhaodd CNC [REP1-080] nad oedd yn ymwybodol o unrhyw wallau yn amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd/Ramsar yng Nghymru yn [APP-027]. Fodd bynnag, o ran nodweddion morloi llwyd a dolffiniaid trwyn potel ACAau ledled Cymru, nododd y gallai'r amcan cadwraeth cynefin cynhaliol gael ei restru fel amcan cadwraeth perthnasol hefyd.
 - I ddechrau, cadarnhaodd CNC [REP1-080] ei fod yn fodlon â'r amcanion cadwraeth a ddefnyddiwyd yn asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar SPA Bae Lerpwl. Fodd bynnag, rhoddodd dolen wedyn i'r Pecyn Cyngor Cadwraeth newydd sy'n cynnwys amcanion cadwraeth wedi'u diweddarau ar gyfer y safle [REP5-047].

3.2 Y Prawf Cyfanrwydd

- 3.2.1 Mae asesiad yr Ymgeisydd, a gyflwynir yn adrannau 10 ac 11 y RIAA [APP-027], yn dod i'r casgliad na fyddai AEOI ar unrhyw safle Ewropeaidd, naill ai o'r Datblygiad Arfaethedig yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Mae Tabl 57 y RIAA yn cyflwyno crynodeb o gasgliadau'r Ymgeisydd.
- 3.2.2 Mae Tabl 3.1 isod yn crynhoi'r trafodaethau hyd yma yn yr Archwiliad ynglŷn â'r safleoedd a'r nodweddion cymwys hynny yr oedd Partion â Buddiant wedi herio casgliadau'r Ymgeisydd amdanynt. Nid oes unrhyw Partion â Buddiant wedi mynegi pryderon ynglŷn ag unrhyw

un o'r safleoedd neu'r nodweddion eraill yr ymdriniwyd â nhw yn asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar gyfanrwydd.

- 3.2.3 Cadarnhaodd CNC ei fod yn cytuno â'r casgliadau yn Nhabl 57 y RIAA ar gyfer safleoedd yng Nghymru, heblaw o ran gwrthdrawiadau â llongau sy'n effeithio ar famaliaid môr [REP1-080]. Datryswyd y mater hwn wedi hynny (gweler Tablau 2.1 a 3.1 yr adroddiad hwn). Mae CNC yn cytuno y gellir eithrio AEOI ar gyfer yr holl Safleoedd Ewropeaidd yng Nghymru a gwmpesir gan asesiad yr Ymgeisydd yn unigol ac ar y cyd, ar yr amod bod y mesurau lliniaru a ddisgrifir yn yr Atodlen Mesurau Lliniaru a'r dogfen Egwyddorion Trwydded Forol yn cael eu sicrhau [REP3-020].
- 3.2.4 Yn dilyn rhyddhau'r amcanion cadwraeth wedi'u diweddarau, dywedodd CNC fod y dystiolaeth sydd ar gael yn ddigon i ganiatáu asesiad yn erbyn yr amcanion cadwraeth wedi'u diweddarau ac iddo ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw AEOI mewn perthynas â'r môr-wennol gyffredin, y môr-wennol fach, deifiwr coch a nodweddion cydosod y SPA.
- 3.2.5 Cynghorodd y JNCC fod ei bryderon yn ymwneud ag ACA Gogledd Môn Forol (gweler Tabl 3.1 am fanylion) a'i fod yn ildio i CNC ac NE o ran effeithiau ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd eraill [REP1-069].
- 3.2.6 Mynegodd yr RSPB bryderon cyffredinol ynglŷn â'r arolygon digidol o'r awyr a ddefnyddiwyd i gasglu'r data sylfaenol. Gofynnodd am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â nifer o bwyntiau methodolegol [REP1-090].
- 3.2.7 Roedd yr Ymgeisydd [REP1-001, REP2-002, REP5-004] o'r farn bod y wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr arolygon a ddarparwyd yn [APP-095] yn debyg i honno a gyflwynwyd ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth eraill, er y darparodd fanylion ychwanegol erbyn Terfyn Amser [REP5-004]. Nododd hefyd fod y dull o gasglu data arolwg wedi cael ei gytuno trwy'r broses Cynllun Tystiolaeth (fel yr adroddir yn [APP-301, APP-302 ac APP-303]).
- 3.2.8 Mae Tabl 4.1 isod yn dangos lle mae casgliad yr Ymgeisydd ynglŷn â dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle, o ran y safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys a restrir, wedi cael ei herio gan Bartion â Buddiant yn ystod yr archwiliad.

Sicrhau mesurau lliniaru

- 3.2.9 Mae Tabl 3 y RIAA [APP-027] yn crynhoi'r mesurau lliniaru sy'n berthnasol i effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd. Nid yw'r mesurau lliniaru hyn yn cael eu sicrhau trwy'r DCO drafft (dDCO). Yn lle hynny, maen nhw'n dibynnu ar osod amodau ynghlwm wrth Drwyddedau Morol yn y dyfodol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Ymgeisydd wedi darparu Atodlen Mesurau Lliniaru a Monitro [REP4-022] a dogfen Egwyddorion Trwydded Forol (6.8 Egwyddorion Trwydded Forol Diwygiad F). Mae'r dogfennau hyn yn disgrifio'r mesurau lliniaru a fyddai'n cael eu sicrhau trwy amodau ar Drwyddedau Morol (ML). Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â hyn gan yr ExA (Q2.107 [PD-009, PD-

010]), dywedodd yr Ymgeisydd ei fod o'r farn bod ei ddull yn cyd-fynd â pharagraff 4.10.3 Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) EN-1 a'r cyngor yn Nodyn Cyngor 10 yr Arolygiaeth. Cyfeiriodd yr Ymgeisydd hefyd at adroddiad yr Arolygydd yng ngheisiadau Parth Arddangos Morlais ar gyfer Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd a chyfraith achosion⁹ i gefnogi ei safbwynt.

- 3.2.10 Cyngorodd Tîm Trwyddedu Morol (MLT) CNC fod cais ML wedi cael ei gyflwyno a'i fod yn mynd rhagddo [REP1-080]. Mae'r MLT yn cytuno â dull yr Ymgeisydd mewn egwyddor; nid yw'n credu ei bod yn briodol dyblygu rheolaethau ar y Datblygiad Arfaethedig yn y DCO ac unrhyw ML a roddir yn y dyfodol. Nid yw'r MLT yn gallu cyhoeddi trwydded forol ddrafft ar yr adeg hon o'r broses gydsynio na gwneud sylwadau o sylwedd arni. Fodd bynnag, mae'r MLT, heb ragfarnu penderfynu ar yr ML, yn cytuno'n gyffredinol â'r ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol ar y sail bod y mesurau lliniaru arfaethedig yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r mesurau a gynhwyswyd mewn ML flaenorol [REP1-080, REP5-039].
- 3.2.11 Cyhoeddodd yr ExA gais am wybodaeth ychwanegol ar 15 Tachwedd 2022 [PD-013] ynglŷn â chynnwys amlinellol yr ML. Ceisiodd wybodaeth gan yr Ymgeisydd a CNC hefyd am ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd i'r cais ML a ph'un a ddylai'r ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol fod yn ddogfen ardystiedig.
- 3.2.12 Mae'r Ymgeisydd yn dweud nad yw'n credu y dylai'r ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol fod yn ddogfen ardystiedig [REP3a-002]. Mae'n credu, fel mater o egwyddor, mai'r dogfennau y dylid eu hardystio yw'r rhai hynny y cyfeirir atynt yn benodol ac a ddiffinnir yn y dDCO. Mae hefyd o'r farn, oherwydd bod prosesu trwydded forol ar wahân i'r cais DCO ac nad yw'r dDCO yn cyfeirio at yr ML, nad yw'n briodol i'r ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol gael ei hardystio.
- 3.2.13 Darparodd yr MLT gopïau o'i ddogfennau cais ML, gan gynnwys y dogfennau cais [REP3a-022, REP3a-042, REP3a-045 i REP3a-047] a sylwadau gan ymgynghoreion [REP3a-026 i REP3a-041]. Darparodd yr Ymgeisydd gopïau o'i ymatebion i sylwadau ymgynghori [REP3a-014] ac i'r cais gan yr MLT am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r cais ML [REP3a-013].
- 3.2.14 Cyflwynodd yr Ymgeisydd ddiweddariad ar gynnydd y cais ML ar Derfyn Amser 6 (6.9 Diweddariad yr Ymgeisydd ar Gyflwyniad a Chynnydd Drwydded Forol Digwyddiad D). Dywedodd y bydd yn parhau i gysylltu â'r MLT i sicrhau bod unrhyw drwydded a roddir yn cyd-fynd â'r Atodlen Lliniaru a Monitro a'r ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol (6.3 Sylwadau Ymgeisydd ar Ymatebion i Ail Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio).
- 3.2.15 Amlygodd CNC, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel cynghorydd statudol, anghysondebau rhwng geiriad yr Atodlen Mesurau Lliniaru a'r ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol [REP1-080]. Erbyn Terfyn Amser 2,

⁹ Fe'i dyfynnwyd fel "Y Frenhines ar Gais Ymddiriedolaeth Natur Dyfnaint v Cyngor Dosbarth Teignbridge v Partneriaeth Ddatblygu Rocklands [2015] EWHC 2159 (Gwein)".

darparodd yr Ymgeisydd fersiynau diwygiedig o'r ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol [REP2-022, REP2-023] a'r Atodlen Mesurau Lliniaru [REP2-024] a geisiodd fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Erbyn Terfyn Amser 5, cadarnhaodd CNC nad oedd ganddo unrhyw bryderon ynglŷn â'r mesurau lliniaru a gynigiwyd yn yr Egwyddorion Trwydded Forol a'r Atodlen Mesurau Lliniaru [REP5-039].

- 3.2.16 Argymhellodd yr RSPB gynyddu'r pellter clirio rhwng llafnau tyrbinau a lefel y môr er mwyn lleihau marwolaethau adar môr yn gysylltiedig â gwrthdrawiadau yn unol â ffermydd gwynt eraill ar y môr ym Môr y Gogledd [REP5-042]. Dywedodd yr Ymgeisydd, gan y rhagwelir y bydd marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwrthdrawiadau o'r Datblygiad Arfaethedig yn isel, na fyddai unrhyw gynnydd yn y bwch aer yn darparu'r un lefel o ostyngiadau mewn cyfraddau marwolaethau rhywogaethau allweddol (6.4 Sylwadau ymgeisydd ar Ymatebion i Ail Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio).

Tabl 3.1: Materion a drafodwyd ynglŷn â chyfanrwydd safleoedd yn ystod yr Archwiliad

Nodweddion cymwys a aseswyd	Effeithiau a aseswyd	Materion yn yr Archwiliad
ACA Gogledd Môn Forol		
Llamhidyddion	Effeithiau sŵn tanddwr ar famaliaid môr yn ystod adeiladu a datgomisiynu – anaf clywedol ac aflonyddu ar anifeiliaid	<p>Mynegodd CNC bryderon cychwynnol ynglŷn ag asesiad yr Ymgeisydd [RR-015]. Roedd y pryderon yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) Chyfiawnhad annigonol ar gyfer absenoldeb asesu Newid Trothwy Parhaol (PTS) cronol yn y RIAA. ii) Seiliau annigonol i ddod i'r casgliad fod y perygl o ddechrau PTS yn cael effaith ddibwys ar llamhidyddion pan nad yw dechrau PTS cronol wedi cael ei gynnwys yn y Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr (MMMP) [APP-107]. iii) Yr angen am fodelu ychwanegol i ganiatáu asesiad manylach o ddechrau PTS ac aflonyddu, gan gynnwys Canlyniadau Aflonyddu ar Boblogaeth Dros Dro (iPCoD). iv) Defnyddio cromliniau dos-ymateb i amcangyfrif ardal y cynefin yr aflonyddir arni ar y sail nad oes modd cyfateb tebygolrwydd ymateb poblogaeth i gollu cynefin / colli ansawdd cynefin ar hyn o bryd. Nododd fod yr amcanion cadwraeth ar gyfer yr ACA yn cynnwys osgoi aflonyddu'n sylweddol ar y boblogaeth llamhidyddion. Diffinnir aflonyddu'n sylweddol fel effeithio ar 20% o ardal berthnasol yr ACA mewn unrhyw ddiwrnod penodol a 10% ar gyfartaledd yn ystod tymor. Cynghorodd CNC y dylid cynnal asesiad wedi'i seilio ar ardal er mwyn pennu hyd a lled y

		<p>cynefin a fyddai'n destun seindonnau i lefel a allai achosi aflonyddu sylweddol.</p> <p>Rhoddodd Nodyn Egluro Mamaliaid Môr yr Ymgeisydd [REP1-002] gyfiawnhad ychwanegol i'w ddull o fodelu PTS cronol a chanlyniadau modelu PTS cronol yn iPCoD, yn unol â chais CNC. Cadarnhaodd y byddai fersiwn derfynol yr MMMP yn cynnwys mesurau lliniaru ar gyfer PTS cronol oni bai bod tystiolaeth ac arweiniad ar y pryd yn awgrymu fel arall. Cytunodd CNC â'r dull hwn [REP3-020].</p> <p>Cynghorodd CNC, ar ôl cynnal ei waith modelu iPCoD ei hun, ei fod wedi dod i'r casgliad y gellir eithrio cyfuniad o PTS ac aflonyddu ar y boblogaeth sy'n dangos AEOI ar yr holl ACAu llamhidyddion yn Uned Rheoli Mamaliaid Môr (MMMU) y Môr Celtaidd a Môr Iwerddon [REP1-080]. Nid yw'n credu y byddai dibyniaeth ar ganllawiau safonol y diwydiant¹⁰ yn lliniaru effeithiau PTS cronol o reidrwydd, ond mae'n fodlon, ar sail canlyniadau ei waith modelu ei hun, y gellir eithrio AEOI o'r llwybr hwn.</p> <p>Cadarnhaodd CNC hefyd [REP1-080] fod gwaith modelu'r Ymgeisydd (fel yr adroddwyd yn REP1-002)) yn dangos nad oes effaith arwyddocaol ar lefel y boblogaeth a'i fod yn ystyried y gellir dibynnu arno i ddiystyru AEOI ar ACA Gogledd Môn Forol a'r holl ACAu eraill â nodwedd llamhidyddion yn yr MMMU o ran anaf clywedol.</p>
--	--	--

¹⁰ JNCC (2010) Protocol asiantaeth cadwraeth natur statudol ar gyfer lleiafu risg anaf i famaliaid môr o ganlyniad i sŵn gosod seilbyst

		<p>O ran pennu ardal yr ACA a fyddai'n destun seindonnau yn ystod adeiladu, adolygodd yr Ymgeisydd [REP1-002] ystod o wahanol feini prawf ar gyfer asesu effeithiau aflonyddu er mwyn ymestyn yr asesiad a gyflwynwyd yn y RIAA, a daeth i'r casgliad ba ddull bynnag a ystyrir i asesu aflonyddu, y byddai ardal sylweddol lai nag 20% o ACA Gogledd Môn Forol yn cael ei haflonyddu'n ddyddiol. Cadarnhaodd CNC [REP1-080, REP3-020, REP3-026] ei fod yn fodlon na fyddai angen rhagor o wybodaeth yn hyn o beth.</p> <p>Mae CNC o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai AEOI ar nodweddion mamaliaid môr ACA yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, ond nododd anghysondebau yn asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau cronol. Cyflwynodd yr Ymgeisydd nodyn egluro Asesiad o Effeithiau Cronol [REP2-028] y mae CNC yn ei adolygu [REP3-026].</p> <p>Dywedodd y JNCC [REP1-069] ei fod yn cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd yn Nhabl 57 y RIAA o ran sŵn tanddwr o osod seilbyst. Fodd bynnag, nid yw'n cytuno y byddai'r mesurau lliniaru a gynigir yn yr MMMP drafft [APP-107] yn ddigonol i leihau risg anaf clywedol i lefelau dibwys. Yn dilyn ymrwymiad yr Ymgeisydd i gynnwys mesurau lliniaru perthnasol yn yr MMMP terfynol, mae'r JNCC yn cytuno y gellir eithrio AEOI, ar yr amod y cytunir ar MMMP addas cyn i waith adeiladu ddechrau ac nad yw trothwyon lle/amser i leihau aflonyddu yn cael eu torri [REP3-024, REP4-029]. Mae hefyd o'r farn efallai y bydd angen MMMP ar wahân os gwneir gwaith clirio Ordnans Heb Ffrwydro (UXO).</p>
--	--	--

Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd ar gyfer
Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

		Erbyn Terfyn Amser 5, ailadroddodd yr Ymgeisydd ei ddull o asesu PTS yn gysylltiedig â chlirio UXO, a nododd nad yw clirio UXO yn rhan o'r gweithgareddau trwyddedadwy yn ei gais DCO. Os bydd angen clirio UXO, byddai ML ar wahân yn cael ei cheisio gan CNC [REP5-004]. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr ExA, rhoddodd yr Ymgeisydd hefyd templed gynllun lliniaru mamaliaid morol penodol UXO [REP4-008].
	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Fel y nodwyd yn Nhabl 2.1 uchod, darparodd yr Ymgeisydd wybodaeth ychwanegol yn [REP1-002] am y mesurau lliniaru ymgorfforedig a fyddai'n cael eu sicrhau trwy amodau ar yr ML. Dywedwyd y byddai'r mesurau hyn yn lleihau risg gwrthdrawiad cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl. Ar ôl darparu'r wybodaeth ychwanegol, cytunodd CNC fod y mesurau rheoli llongau arfaethedig yn ddigonol i eithrio AEoI.
ACA Dynesfeydd Môr Hafren		
Llamhidyddion	Effeithiau sŵn tanddwr ar famaliaid môr yn ystod adeiladu a datgomisiynu – anaf clywedol ac aflonyddu	Gweler ACA Gogledd Môn Forol am grynoded o safbwyntiau'r Ymgeisydd a CNC. Fel y nodwyd uchod, mae sylwadau'r JNCC yn ymwneud ag ACA Gogledd Môn Forol yn unig.
ACA Bae Ceredigion		
Morloi llwyd Dolffiniaid trwyn potel	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Gweler ACA Gogledd Môn Forol am grynoded o safbwyntiau'r Ymgeisydd a CNC.
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau		
Morloi llwyd Dolffiniaid trwyn potel	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Gweler ACA Gogledd Môn Forol am grynoded o safbwyntiau'r Ymgeisydd a CNC.
ACA Gorllewin Cymru Forol		

Llamhidyddion	Effeithiau sŵn tanddwr ar famaliaid môr yn ystod adeiladu a datgomisiynu – anaf clywedol ac aflonyddu	Gweler ACA Gogledd Môn Forol am grynodedb o safbwyntiau'r Ymgeisydd a CNC. Fel y nodwyd uchod, mae sylwadau'r JNCC yn ymwneud ag ACA Gogledd Môn Forol yn unig.
ACA Sir Benfro Forol		
Morloi llwyd	Risg gwrthdrawiad â llongau yn ystod adeiladu	Gweler ACA Gogledd Môn Forol am grynodedb o safbwyntiau'r Ymgeisydd a CNC.
AGA Bae Lerpwl		
Trochyddion gyddfgoch	Dadleoli ac aflonyddu ar gyfer pob cam o'r Datblygiad Arfaethedig	<p>Roedd yr RSPB o'r farn, oherwydd bod y Datblygiad Arfaethedig gerllaw'r AGA, fod tystiolaeth o waith ymchwil cyhoeddedig yn awgrymu bod yr adar yn debygol o gael eu dadleoli o ran o'r AGA, gan leihau maint swyddogaethol yr AGA, a fyddai'n groes i'r amcanion cadwraeth. Ni ellir eithrio AEOI yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill [RR-024, REP1-089, REP1-090].</p> <p>Cynghorodd yr Ymgeisydd fod CNC yn cytuno y gellir diystyru AEOI ar yr AGA; roedd CNC hefyd yn cytuno â'r Ymgeisydd bod ymddygiad trochyddion gyddfgoch a arsylwyd yn AGA Bae Lerpwl yn anghyson ag ymddygiad a welwyd mewn mannau eraill, fel y dangoswyd gan yr arolygon sylfaenol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig a'r arolygon monitro ar gyfer fferm wynt alltraeth Gwynt y Môr [REP1-001, REP2-002, REP5-004]. Mae'r asesiad yn y RIAA wedi ystyried y gwaith ymchwil cyhoeddedig y cyfeiriwyd ato yn sylwadau'r RSPB [REP5-004]. Rhoddodd gyfiawnhad ychwanegol i'w ddull o ddiffinio strwythur oed sefydlog, ond nododd er nad oedd CNC yn cytuno â'r pwynt hwn, nid oedd yn atal CNC rhag dod i'r casgliad nad oedd hyn yn effeithio</p>

		<p>ar ganlyniadau'r asesiad [REP5-004]. Ailadroddodd ei safbwynt yn Derfyn Amser 6 (6.3 Sylwadau yr Ymgeisydd ar Ymatebion i Ail Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio).</p> <p>Nid oedd CNC o'r farn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at golli cynefin cynhaliol ar gyfer y rhywogaeth hon. Nid oedd CNC yn llwyr gytuno â dull yr Ymgeisydd o asesu dadleoli, ond fe allai gytuno â chasgliadau'r asesiad o hyd [REP1-080, REP3-020]. Eglurodd ei gasgliad ymhellach [REP5-039], yn ymwneud â'r dystiolaeth o fonitro yng Ngwynt y Môr. Nododd ddiffyg dadleoli trochyddion gyddfgoch ym Mae Lerpwl o gymharu â mannau eraill a gofynnodd am ddilysu cynhwysfawr gan fonitro cyn, yn ystod ac ar ôl adeiladu [RR-015, REP1-080, REP5-039].</p> <p>Mae CNC o'r farn [RR-015, REP1-080] y bydd angen cynllun rheoli traffig llongau yn ystod gweithredu er mwyn osgoi/lleihau aflonyddu a dadleoli. Mae'n fodlon y gellir sicrhau hyn trwy amod ar yr ML ac mae'n fodlon gweithio gyda'r Ymgeisydd i ddatblygu'r cynllun. Os bydd hwn ar waith, mae CNC yn cytuno na fyddai AEOI yn codi naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill [RR-015, REP1-80, REP5-039].</p> <p>Dywedodd CNC, pan ystyrir yr amcanion cadwraeth wedi'u diweddarau, ei bod yn parhau i fod yn fodlon y bydd digonedd (i) y boblogaeth yn cael ei gynnal (ii) bydd dosbarthiad cyffredinol y boblogaeth yn parhau i fod yr un lefelau aflonyddwch (iii) Ni fydd lefelau'r aflonyddwch yn ddigon i effeithio ar niferoedd y boblogaeth, dosbarthiad na defnydd cynefin o fewn y safle a (iv) bydd cynefin sy'n cefnogi cynefin</p>
--	--	---

		yn cael ei gynnal [REP5-047]. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod hefyd wedi adolygu'r set newydd o amcanion cadwraeth a chasgliad dim AEOI yn parhau i fod yn ddilys (6.3 Sylwadau yr Ymgeisydd ar Ymatebion i Ail Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio).
AGA Gwales		

<p>Huganod</p>	<p>Risg gwrthdrawiad yn ystod gweithredu</p>	<p>Mynegodd yr RSPB bryderon ynglŷn â'r pwyntiau canlynol [RR-024, REP1-089, REP1-090, REP2-058, REP5-042]:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) Nid yw'n cytuno â'r gyfradd osgoi 98.9% a ddefnyddiwyd yng ngwaith modelu risg gwrthdrawiad (CRM) yr Ymgeisydd oherwydd efallai na fydd y gyfradd osgoi hon yn cyfleu amrywiadau tymhorol mewn ymddygiad huganod yn gywir. Mae cyfradd osgoi 98% yn fwy priodol ar gyfer huganod sy'n bridio. ii) Mae asesiad yr Ymgeisydd yn lleihau dwyseddau sylfaenol yn y CRM 60 – 80% i ystyried macro-osgoi tyrbinau. Mae'r RSPB yn nodi bod y dystiolaeth sy'n ategu'r dull hwn yn parhau i gael ei hasesu gan NE a'r JNCC. Nid yw'n derbyn defnyddio'r dull hwn hyd nes bod canlyniadau'r asesiadau hyn wedi cael eu hadrodd. Mae hefyd yn pryderu bod tystiolaeth o facro-osgoi gan huganod wedi'i seilio ar arsylwi adar nad ydynt yn bridio ac efallai nad yw'n adlewyrchu ymddygiad adar sy'n bridio. iii) Mae'r RSPB o'r farn bod y brigiad o achosion diweddar o Ffliw Adar Pathogenig Iawn (HPAI) yn debygol o gael effaith ddifrifol ar boblogaethau adar môr (mae brigiad o achosion yn parhau yn AGA Gwales), gan eu gwneud yn llai gwydn i unrhyw farwolaethau ychwanegol o ganlyniad i ffermydd gwynt alltraeth. Felly, mae'n ystyried y dylid cynnal Dadansoddiad o Hyfywedd Poblogaeth (PVA) ar gyfer huganod. iv) Nid yw asesiad yr Ymgeisydd wedi llwyr briodoli effeithiau gwrthdrawiad i unrhyw un o'r AGAau o fewn cynefin chwilota am fwyd y Datblygiad
----------------	--	--

